Mythau Iechyd a Diogelwch Mawr



Y myth Gwaherddir rasys crempog!

Y gwirionedd Rhoddwyd gofynion iechyd a diogelwch fel y rheswm dros beidio â chynnal ras grempog y llynedd.

Dim ond asesiad risg syml, byr sydd ei angen er mwyn cynnal digwyddiad mor syml â hwn. A phan fo digwyddiad wedi'i gynnal sawl gwaith o'r blaen, dim ond adolygu'r asesiad blaenorol sydd angen ei wneud – i sicrhau nad oes dim wedi newid – er mwyn i'r hwyl fynd yn ei blaen!

Mae rheoli risg yn ymwneud â chymryd camau ymarferol i amddiffyn pobl rhag niwed a dioddef gwirioneddol – nid gweithdrefnau biwrocrataidd i osgoi cael eich dal yn gyfrifol os bydd rhywbeth yn mynd o'i le.